# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Mehefin 2024

Amser: 13.30 - 13.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13938

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AS.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.12 SL(6)486 - Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)487 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 3.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â gohirio cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru a drefnwyd ar gyfer 23 Mai.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a Llywodraeth y DU: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol.

### 4.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet.

### 4.3 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a'r Bil Rhentwyr (Diwygio)

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol - Rheoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 7 Gohebiaeth gan Adam Price AS mewn perthynas â Charchar EF y Parc: Ystyriaethau pellach

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Adam Price AS, a chytunwyd i ystyried y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.